**CYNGOR BRO MORGANNWG**

# CANLLAW I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN YN Y BROSES GRAFFU

## SIARAD YN GYHOEDDUS MEWN CYFARFOD PWYLLGOR CRAFFU

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd wneud cyfraniad pwysig a bod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr. Mae'r Cyngor felly'n annog pob trigolyn i gymryd rhan weithredol yn ei swyddogaeth Graffu.

Mae'r Canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gall aelodau o'r cyhoedd ei ddisgwyl wrth gymryd rhan mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu.

Mae'r Canllaw hwn wedi'i ddrafftio gan ystyried Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Cyngor Bro Morgannwg: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Multi-Location-Meetings-Policy/Multi-Location-Meetings-Policy.aspx

**Dim ond ag eitemau busnes cyffredinol dan ystyriaeth y Pwyllgorau Craffu y mae'r Canllaw hwn yn ymdrin, sef eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr agenda gyhoeddedig.**

**Pan fydd mater o bryder/budd mawr i'r cyhoedd yn codi, bydd trefniadau gwahanol yn berthnasol. Cadeirydd perthnasol y Pwyllgor Craffu fydd yn penderfynu ar hyd yr amser siarad, yn seiliedig ar lefel budd y cyhoedd.**

CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Beth yw Craffu? | Tudalen 3. |
| 2 | Ble a phryd mae Pwyllgorau Craffu yn cyfarfod. | Tudalen 4. |
| 3 | Ffrydio cyfarfodydd yn fyw. | Tudalen 4. |
| 4 | Sut rydw i'n sicrhau bod fy sylwadau'n cael eu clywed? | Tudalen 5. |
| 5 | Pwy sy'n cael siarad? | Tudalen 5. |
| 6 | Am ba hyd y mae'n rhaid i mi siarad? | Tudalen 6. |
| 7 | Am beth y caf i siarad yn y cyfarfod? | Tudalen 6. |
| 8 | Am beth na chaf i siarad yn y cyfarfod? | Tudalen 7. |
| 9 | Presenoldeb yn y cyfarfod. | Tudalen 7. |
| 10 | Ble rydw i'n eistedd? | Tudalen 8. |
| 11 | Pryd y byddaf i'n siarad? | Tudalen 8. |
| 12 | A gaf i rannu dogfennau ategol neu ddefnyddio cymhorthion gweledol? Tudalen 8. | |
| 13 | Ar ôl i mi siarad. | Tudalen 9. |
| 14 | Sut rydw i'n cofrestru i siarad? | Tudalen 9. |
| 15 | Sylwadau ysgrifenedig. | Tudalen 11. |
| 16 | Gwybodaeth ychwanegol | Tudalen 11. |
| 17 | Hysbysiad Preifatrwydd. | Tudalen 12. |

## 1 Beth yw Craffu?

1.1 Mae swyddogaeth Graffu'r Cyngor yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ("Cynghorwyr") archwilio'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a gofyn cwestiynau ar sut y gwnaed penderfyniadau. Rhaid i Bwyllgorau Craffu hefyd wneud trefniadau i wrando ar farn y cyhoedd a'r gymuned. Un o rolau'r Pwyllgor Craffu yw ystyried y farn honno wrth ystyried y mater perthnasol a throsglwyddo'r farn honno i Gabinet y Cyngor iddo ei hystyried, os ystyrir bod hynny'n briodol.

1.2 Mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw'r Pwyllgorau Craffu yn delio ag ymholiadau, pryderon na chwynion unigol a bod cyfarfod Pwyllgor Craffu yn gyfarfod a gynhelir yn gyhoeddus, ond nid yw'n Gyfarfod Cyhoeddus.

1.3 Mae gan y Cyngor bum Pwyllgor Craffu:

**Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol**

Dyma’r Pwyllgor trosolwg sy'n delio ag Iechyd Corfforaethol, gwaith mewnol y Cyngor, ei gyllid a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Yr Amgylchedd ac Adfywio**

Y Pwyllgor Craffu hwn sy’n delio â Rheoli Gwastraff, Cyfleusterau Hamdden (fel parciau ac ardaloedd chwarae), Cynnal a Chadw Priffyrdd, Cynllunio (ond nid materion fel ceisiadau cynllunio), Trafnidiaeth a Datblygu Economaidd.

**Byw’n Iach a Gofal Cymdeithasol**

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn delio â Gwasanaethau Oedolion (e.e., fel Cartrefi Gofal), Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (e.e. Gwasanaeth Mabwysiadu), a Byw'n Iach a Hamdden i sicrhau bod trigolion Bro Morgannwg yn byw bywydau iach a bod pobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi.

**Cartrefi a Chymunedau Diogel**

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn delio â Thai Cyngor a gwaith cynnal a chadw cysylltiedig, Tai Sector Preifat, Iechyd yr Amgylchedd a Diogelwch Cymunedol, Trosedd ac Anhrefn (gan gynnwys Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid) a swyddogaethau Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

**Dysgu a Diwylliant**

Mae'r Pwyllgor Craffu hwn yn delio â phob mater Ysgolion, (sy'n cynnwys Gwella Ysgolion, Addysg Ôl-16, ac Addysg Gymunedol) Gwasanaethau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, y Gymraeg a Datblygu'r Celfyddydau.

## 2 Ble a phryd mae Pwyllgorau Craffu yn cyfarfod?

2.1 Mae pob un o bum Pwyllgor Craffu'r Cyngor yn cyfarfod tua 10-12 gwaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd fel arfer yn dechrau am 6:00pm ac fel arfer yn cael eu cynnal yn hybrid. Yn achos unrhyw gyfarfod a gynhelir wyneb yn wyneb neu ar sail hybrid, bydd unigolion sy'n mynychu'n gorfforol yn cyfarfod yn Siambr y Cyngor yn Swyddfeydd Dinesig y Barri. Fodd bynnag, ar adegau, gellir defnyddio lleoliad arall (e.e. gall y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant gyfarfod mewn ysgol). Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig bresennol (mis Mai i fis Ebrill) ar gael ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y ddolen ganlynol: valeofglamorgan.gov.uk cyfarfodydd ac agendâu.

2.2 Bydd y darpariaethau yn y ddogfen hon hefyd yn berthnasol i unrhyw gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu y mae'r Cyngor / Cadeirydd yn penderfynu eu cynnal ar sail rithwir yn unig neu ar sail hybrid (h.y. presenoldeb o bell).

## 3 Ffrydio cyfarfodydd yn fyw.

3.1 Mae Adran 46 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod cyfarfodydd Prif Gyngor yn cael eu darlledu'n fyw a'u bod ar gael i'w gwylio'n electronig ac eithrio pan nad yw'r cyfarfod ar agor i'r cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw (ei we-ddarlledu) ar wefan y Cyngor a'i archifo wedi hynny i'w wylio yn y dyfodol.

3.2 Mae Adran 47 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud a chyhoeddi trefniadau sy'n sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd Awdurdod Lleol trwy ddefnyddio unrhyw offer neu gyfleuster arall sy'n galluogi cyfranogwyr cyfarfodydd nad ydynt yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd (dull hybrid), i siarad â'i gilydd ac i glywed ei gilydd. Daeth y ddarpariaeth hon i rym ar 1 Mai 2021. O 5 Mai 2022, yn ogystal â'r gofyniad bod cyfranogwyr cyfarfodydd yn gallu siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd, yn achos cyfarfodydd y mae angen eu darlledu, rhaid i gyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod allu gweld ei gilydd a chael eu gweld gan ei gilydd hefyd.

3.3 Bydd cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn cael eu ffrydio'n fyw dros y rhyngrwyd gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i wylio'r cyfarfod o bell naill ai'n fyw (ar yr

adeg y cynhelir y cyfarfod) neu ar alw (yn ddiweddarach). Bydd aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad yn cael gwybod am hyn cyn y cyfarfod.

## 4 Sut rydw i'n sicrhau bod fy sylwadau'n cael eu clywed?

4.1 Gall eich sylwadau gael eu clywed mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu drwy ddwy ffordd. Cewch ddewis gofyn am gael siarad mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu neu fel arall, gallwch anfon sylwadau ysgrifenedig. Mae'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'w gweld yn adran 15 y Canllaw hwn.

## 5 Pwy sy'n cael siarad?

5.1 Mae gan unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio ym Mro Morgannwg ac sydd wedi cofrestru ymlaen llaw, yr hawl i siarad mewn cyfarfod a drefnwyd un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor.

5.2 Nid sesiwn holi ac ateb yw'r cyfarfod a gofynnir i siaradwyr wneud sylwadau ar lafar sy'n berthnasol i'r pwnc ac osgoi ailadrodd.

5.3 Bydd nifer y siaradwyr cyhoeddus yn gyfyngedig, a bydd hyn yn dibynnu ar nifer y cofrestriadau a ddaw i law.

5.4 Os bydd person o dan 16 oed yn dymuno siarad mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu, rhaid iddo fod yng nghwmni oedolyn sydd dros 18 oed.

5.5 Lle y bo'n briodol, gellir gofyn i Dystion Arbenigol sydd â gwybodaeth neu brofiad penodol siarad gerbron y Pwyllgor Craffu ar fater penodol. Pan ofynnir i dyst roi tystiolaeth, y Cadeirydd fydd yn penderfynu faint o amser siarad a roddir iddo. **Ni fydd hyn yn effeithio ar faint o amser siarad cyhoeddus a gaiff ei neilltuo.**

5.6 Rhaid i Gynrychiolwyr Cynghorwyr Tref a Chymuned gofrestru i siarad, a chânt uchafswm o 3 munud o amser siarad er mwyn iddynt gynrychioli eu cyngor unigol, ni waeth pwy arall sydd wedi'i gofrestru i siarad. Yng nghyswllt y canllaw hwn, fe'u hystyrir yn aelodau o'r cyhoedd. Rhaid i’r unigolyn sydd wedi cofrestru i siarad ar ran y Cyngor Tref neu Gymuned gael ei enwebu gan Swyddog Priodol y Cyngor h.y., Clerc y Cyngor Tref neu Gymuned neu berson cyfatebol dros dro, a hynny drwy e-bost a anfonir i Democratic@valeofglamorgan.gov.uk. Dim ond un cynrychiolydd o bob Cyngor Tref a Chymuned a gaiff siarad ar unrhyw eitem unigol ar yr agenda.

5.7 Nid oes angen i Swyddogion Cyngor Bro Morgannwg a/neu unrhyw gynrychiolwyr y maent wedi'u henwebu i gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu ar eu rhan gofrestru i siarad ac nid ydynt yn destun amseroedd siarad

penodedig.

## 6 Am ba hyd y mae'n rhaid i mi siarad?

6.1 I bob eitem ar yr agenda, bydd cyfanswm o 15 munud o amser siarad ar gyfer aelodau o'r cyhoedd (ar yr amod eu bod wedi cofrestru i siarad). Os bydd nifer o geisiadau i siarad, bydd y Cadeirydd fel arfer yn caniatáu hyd at uchafswm o 5 siaradwr unigol fesul eitem ar yr agenda (h.y. 3 munud i bob siaradwr). Bydd siaradwyr unigol sydd wedi cofrestru i siarad yn cael eu cyfyngu i 3 munud yn ystod eitem ar yr agenda.

6.2 Pan fydd nifer o geisiadau i siarad wedi dod i law, sy'n fwy na'r uchafswm a ganiateir fel arfer o 5 siaradwr unigol, yna bydd y trefniadau siarad yn seiliedig ar lefel budd y cyhoedd a faint o amser siarad a bennir gan y Cadeirydd.

> Nid yw'r Canllaw hwn yn berthnasol i Aelodau Etholedig Bro Morgannwg, gan eu bod yn ddarostyngedig i weithdrefnau Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n rhoi'r hawl iddynt siarad gyda chaniatâd y Pwyllgor.

## 7 Am beth y caf i siarad yn y cyfarfod?

7.1 Rhaid i aelod o'r cyhoedd, sy'n siarad ar eitem ar yr agenda, gyfeirio ei araith at yr eitem y mae wedi cofrestru i siarad arni ac ni chaiff fynd i'r afael ag eitemau eraill ar yr agenda nac unrhyw fater nad yw'n gysylltiedig.
Dylai sicrhau:

- Bod sylwadau'n glir ac yn gryno a’u bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r eitem ar yr agenda y gwnaeth gais i gael siarad amdani.
- Ei fod yn osgoi ailadrodd pwyntiau a wnaethpwyd yn flaenorol gan unrhyw siaradwyr cyhoeddus cynharach.
- Bod barn wedi'i chyfyngu i fanteision neu anfanteision yr eitem a'i fod yn tynnu sylw at sut gallai'r eitem effeithio ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau i grwpiau penodol o ddinasyddion yn y Fro; ac
- Nad yw sylwadau'n ddifenwol, yn wahaniaethol nac yn cynnwys iaith sarhaus.

## 8 Am beth na chaf i siarad yn y cyfarfod?

8.1 Mae hawl y cyhoedd i siarad yn berthnasol i bob eitem ar yr agenda ac eithrio'r canlynol:

- Ymddiheuriadau.
- Datgan Buddiannau.
- Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol.
- Os yw eitem ar yr agenda wedi'i thynnu'n ôl neu'i ohirio.
- Unrhyw eitem ar yr agenda nad yw'n cynnwys adroddiad ysgrifenedig neu unrhyw eitem ar yr agenda lle y mae'r Cadeirydd wedi arfer ei ddisgresiwn i dynnu'r hawl i siarad yn gyhoeddus yn ôl, e.e. cyflwyniad; a
- Phan fydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried eitemau cyfrinachol ("Rhan II"), bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob aelod o'r cyhoedd a'r wasg adael ystafell y cyfarfod (boed o Bell, yn Hybrid neu'n Gorfforol) cyn parhau gyda'r agenda. Bydd unrhyw recordiad o'r cyfarfod hefyd yn dod i ben.

8.2 Nid yw'r hawl i siarad yn cynnwys yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw Aelod Etholedig, Swyddog y Cyngor, tystion/mynychwyr gwadd neu unrhyw siaradwr cofrestredig arall.

8.3 Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor ddisgresiwn i atal siaradwr cyn i'w amser penodedig ddod i ben os yw'r siaradwr, ym marn y Cadeirydd, yn gwneud unrhyw sylwadau sy'n, neu y mae'n ymddangos eu bod yn:

- ddifenwol.
- gwahaniaethol.
- cynnwys iaith dramgwyddus.
- croes i'r gweithdrefnau a nodir yn y Canllaw i'r Cyhoedd Gymryd Rhan yn y Broses Graffu hwn.
- anghysylltiedig â'r eitem ar yr agenda dan sylw; neu'n
- gyfystyr ag ymddygiad nad yw'n briodol fel arall mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu.

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r person dan sylw (Adran 4.28 Cyfansoddiad y Cyngor). Os bydd yn parhau i darfu ar y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo gael ei symud o'r cyfarfod.

## 9 Presenoldeb yn y cyfarfod.

9.1 Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad ymuno â'r ystafell gyfarfod o bell, neu gyrraedd Siambr y Cyngor 15 munud cyn yr amser dechrau sydd wedi'i drefnu a dylent hysbysu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu pan fyddant yn cyrraedd.

## 10 Ble rydw i'n eistedd?

10.1 Yn achos cyfarfodydd o bell, pan fydd siaradwr cofrestredig yn ymuno â'r ystafell gyfarfod o bell trwy glicio ar y ddolen ymuno URL a anfonwyd ato ymlaen llaw gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, bydd yn cael ei roi'n awtomatig mewn ystafell aros rithwir i westeion nes bod y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn ei dderbyn i'r ystafell gyfarfod o bell.

10.2 Mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn rhoi'r siaradwr cofrestredig mewn sedd fel sy'n briodol yn Siambr y Cyngor ac, ar yr adeg briodol, bydd y Cadeirydd yn gofyn iddo actifadu'r meicroffon ar ei ddesg fel y gellir ei weld a'i glywed yn glir.

10.3 Ar adegau lle gall fod diffyg lle ffisegol mewn cyfarfod (e.e. o ganlyniad i bandemig COVID) neu lle gall fod problemau technolegol, bydd Cadeirydd cyfarfod, swyddogion hanfodol sy'n cefnogi'r cyfarfod a chyfieithwyr ar y pryd yn cael blaenoriaeth o ran presenoldeb yn y Siambr.

## 11 Pryd fydda i'n siarad?

11.1 Fel arfer, bydd eitemau ar yr agenda sydd â siarad cyhoeddus ynddynt yn cael eu hystyried yn gyntaf a byddant yn dilyn y fformat canlynol:

1. Swyddog Cyfrifol o'r Cyngor i gyflwyno'r adroddiad.
2. Os yw'n berthnasol, deiliad portffolio'r Aelod Cabinet i siarad gerbron y Pwyllgor Craffu.
3. Tyst Arbenigol i roi tystiolaeth.
4. Aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad.
5. Aelodau Etholedig Eraill (h.y. nid aelodau o'r Pwyllgor Craffu); ac
6. Aelodau Pwyllgor Craffu.

## 12 A gaf i rannu dogfennau ategol neu ddefnyddio cymhorthion gweledol?

12.1 Ni chewch rannu unrhyw ddogfennau ategol yn y cyfarfod na defnyddio unrhyw fath o gymorth gweledol, fel ffotograffau neu ddiagramau. Cynlluniwyd y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i siarad neu i wneud sylwadau ysgrifenedig i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu cyn y cyfarfod er mwyn i'r Aelodau allu ystyried y pwyntiau a godwyd y llawn.

## 13 Ar ôl i mi siarad.

13.1 Ar ôl i chi orffen siarad, dylech fod yn ymwybodol y gall Cadeirydd y Pwyllgor a/neu Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i chi er mwyn egluro rhai o'ch sylwadau. Rhaid i chi beidio â dechrau dadl gydag Aelodau'r Pwyllgor, gan nad ymchwiliad cyhoeddus yw hwn; ond yn hytrach gyfarfod y Cyngor. Yna gofynnir i chi ddiffodd eich meicroffon ac, os ydych yn ymuno o bell, ddiffodd eich camera.

13.2 Yna bydd y Pwyllgor yn trafod y mater ymhellach cyn gwneud unrhyw argymhellion i'r Cabinet (neu'r Uwch Swyddog sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig) y mae’n barnu eu bod yn briodol.

13.3 Os yw'r Cadeirydd yn dweud nad oes unrhyw gwestiynau pellach yn dilyn eich sylwadau, mae croeso i chi adael y cyfarfod ar unrhyw adeg os dymunwch.

D:S Er y bydd Pwyllgor Craffu yn ystyried sylwadau a wnaed gan Siaradwyr Cyhoeddus ac Aelodau Etholedig eraill wrth ystyried materion a ffurfio argymhellion, mae'n ddyletswydd ar y Pwyllgor i ddod i'w gasgliad ei hun fel y gwêl yn briodol.

## 14 Sut rydw i'n cofrestru i siarad?

14.1 Cyhoeddir yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu ar wefan y Cyngor, o leiaf 5 diwrnod clir (sy’n cynnwys penwythnosau) cyn dyddiad y cyfarfod.

Rhaid i gopïau caled o agendâu ac adroddiadau fod ar gael i'r cyhoedd os cynhelir cyfarfodydd yn gorfforol ac mae’n ofyniad hefyd i’r Cyngor sicrhau darpariaeth ar gyfer aelodau o'r cyhoedd na allant gael gafael ar ddogfennau, er enghraifft drwy ddarparu mynediad i gyfrifiaduron, copïau cyfyngedig o ddogfennau mewn cyfarfodydd neu drwy ffi neu sicrhau bod dogfennau ar gael i'w harchwilio yn y Swyddfeydd Dinesig, drwy gysylltu â’r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu drwy ddesg y brif dderbynfa.

14.2 Bydd y ffurflen gais briodol er mwyn cofrestru i siarad ar gael ar wefan y Cyngor o 8:30am y diwrnod ar ôl cyhoeddi'r agenda drwy'r ddolen ganlynol: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx .

14.3 Dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru i siarad mewn un o gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu'r Cyngor wneud cais drwy lenwi'r ffurflen gais briodol erbyn 5.00pm tri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod heb gynnwys diwrnod y cyfarfod.

(Er enghraifft, os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid derbyn ceisiadau i siarad erbyn 5.00pm ar y dydd Mercher blaenorol:

| ENGHRAIFFT | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener | Sadwrn | Sul |
| | | | Cyhoeddi'r Agenda | Cofrestru'n agor 8:30am | | |
| | | Cofrestru'n cau 5:00pm | Diwrnod Clir 1 | Diwrnod Clir 2 | | |
| Diwrnod Clir 3 | Diwrnod y Cyfardod | | | | | |

Rhaid cael rhybudd digonol ymlaen llaw gan siaradwyr er mwyn cael syniad o bresenoldeb tebygol y cyhoedd a chynnig cymorth a chyngor i'r rheiny nad ydynt yn siŵr beth i'w wneud nesaf a / neu sy'n dymuno siarad gerbron y Pwyllgor yn Gymraeg. Efallai y bydd hefyd angen datrys unrhyw faterion yn ymwneud ag enwebu siaradwr a rhoi amserlen resymol i'r unigolyn hwnnw gydlynu ei ymateb.

14.4 I gofrestru eich diddordeb dylech lenwi'r ffurflen gais briodol, sydd i'w gweld drwy ddilyn y ddolen we ganlynol:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx

Cydnabyddir nad oes gan rai unigolion fynediad at gyfleuster electronig. Bydd yr unigolion hynny'n gallu cofrestru i siarad dros y ffôn ar 01446 709855 (gofynnir iddynt gyflwyno'r un wybodaeth sy'n ofynnol ar y ffurflen ar-lein) a bydd cadarnhad o'u cofrestriad yn cael ei roi ar lafar yn ystod yr alwad ffôn.

14.5 Rhaid i geisiadau gynnwys manylion yr eitem ar yr agenda a chyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol yr hoffech siarad ynddo. Rhaid i aelodau o'r cyhoedd nodi hefyd yn y blwch sylwadau, fanylion penodol y materion y maent am eu codi.

14.6 Fel arfer, ymdrinnir â cheisiadau a dderbynnir yn y drefn y daethant i law.

14.7 Ar ôl i unigolyn gyflwyno ei Ffurflen Gofrestru, bydd yn derbyn e-bost cadarnhau awtomatig yn rhoi gwybod iddo fod ei gofrestriad wedi bod yn llwyddiannus. Ar ôl y Dyddiad Cau ar gyfer Cofrestru, bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu sy'n cefnogi'r Pwyllgor Craffu yn cysylltu â'r unigolyn i roi copi o'r canllaw hwn iddo ac i gadarnhau ei amser siarad penodedig.

14.8 Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn anfon gwahoddiad electronig i'r cyfarfod at gyfranogwyr a fydd yn mynychu, ni waeth a fydd y

cyfarfod yn cael ei gynnal fel un Hybrid neu o Bell. Mae'r gwahoddiad yn unigryw i'r unigolyn ac ni ddylid ei anfon ymlaen at berson arall gan y bydd yn atal y derbynnydd bwriedig rhag cael mynediad at y cyfarfod.

## 15 Sylwadau ysgrifenedig.

15.1 Rydym yn sylweddoli y gallech ei chael hi'n anodd siarad gerbron y Pwyllgor mewn person. Os felly, rydym yn croesawu cyflwyniadau ysgrifenedig o'ch safbwyntiau/barn a gellir anfon y rhain:

Drwy E-bost i:- Democratic@valeofglamorgan.gov.uk

Neu i'r cyfeiriad post canlynol:

Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu,
Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bro Morgannwg,
Heol Holltwn,
Y BARRI,
CF63 4RU.

15.2 Fel arall, gall aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r ffurflen electronig ganlynol i gyflwyno sylwadau neu wneud cais i'r Pwyllgor(au) Craffu perthnasol ystyried mater:

15.3 Dylai'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu dderbyn Sylwadau Ysgrifenedig erbyn 4.00pm ar y diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu.

(Er enghraifft, os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid derbyn sylwadau erbyn 4.00pm y diwrnod blaenorol; dydd Llun).

## 16 Gwybodaeth Ychwanegol.

16.1 Dim ond os ceisir caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Prif Weithredwr cyn y cyfarfod y caniateir ffilmio a recordio annibynnol o gyfarfodydd yn Siambr y Cyngor.

16.2 Dylai siaradwyr roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ymlaen llaw os oes ganddynt unrhyw anghenion neu ofynion arbennig er mwyn cymryd rhan.

16.3 Bydd angen i unigolion a oedd wedi'u cofrestru i siarad ar fater, sydd wedi'i ohirio gan y Pwyllgor Craffu, ail-gofrestru cyn y cyfarfod nesaf pan gaiff y mater ei ail-ystyried.

16.4 Cynhelir Cyfarfodydd Craffu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor yn Adran 19 o Gyfansoddiad y Cyngor ac Ymddygiad Aelodau – Yr Egwyddorion yn Atodiad 1 Adran 19.

16.5 Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfod un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor, neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ar y rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost isod o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod.

Y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu - Rhif ffôn: 01446 709 855

E-bost: Democratic@valeofglamorgan.gov.uk

Neu gyfeiriad post: Y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu

Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bro Morgannwg,
Heol Holltwn,
Y BARRI,
CF63 4RU.

## 17 Hysbysiad Preifatrwydd.

17.1 Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn atodol i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor y ceir dolen iddo isod:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

17.2 Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn benodol ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

17.3 Mae'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu'n cynnig cymorth a gweinyddiaeth ar gyfer system Bwyllgorau'r Cyngor er mwyn iddi gweithredu'n effeithiol. Yn benodol maent yn gwneud y canlynol:

- Trefnu ac amserlennu cyfarfodydd,
- Penderfynu a fydd y cyfarfod yn un cyhoeddus,
- Cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn ymwneud â'r cyfarfod,
- Gwahodd unigolion i fynychu,
- Ymdrin â gohebiaeth a dderbyniwyd yn ymwneud â busnes y cyfarfod,
- Ymdrin ag ymholiadau yn ymwneud â busnes y cyfarfod,
- Cymryd cofnodion y cyfarfod perthnasol,
- Cyhoeddi agendâu a chofnodion,
- Ymdrin ag unrhyw fater arall sy'n berthnasol i fusnes y cyfarfod,
- Trefnu i gadw dogfennau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.

17.4 Yng nghyd-destun yr hysbysiad hwn mae'r gair cyfarfod yn cynnwys:

- Cyfarfodydd y Cyngor
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau’r Cyngor
- Cyfarfodydd Cynllunio
- Is-bwyllgor Cynllunio (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)
- Pwyllgor Craffu
- Cyfarfodydd Is-bwyllgor Craffu’r Cyngor
- Pwyllgor Apeliadau Addysg
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; ac
- Unrhyw gyfarfodydd eraill sy’n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

17.5 Er mwyn hyrwyddo Llywodraeth a Democratiaeth agored, cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus ac yn unol â hynny bydd unrhyw beth a drafodir yn y cyfarfodydd hynny yn gyhoeddus a bydd unrhyw gofnodion, recordiadau neu we-ddarllediadau hefyd yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau lle nad yw'n briodol i faterion gael eu trafod yn gyhoeddus, er enghraifft busnes personol unigolion neu wybodaeth sy'n sensitif yn ariannol/fasnachol. Bydd agenda'r cyfarfod yn egluro sut y bydd gwybodaeth yn cael ei thrin.

17.6 Yn unol â hynny, os byddwch:

- yn cyflwyno gwybodaeth i'w thrafod mewn cyfarfod Pwyllgor, neu
- yn mynd i gyfarfod Pwyllgor er mwyn siarad, neu
- yn cyflwyno dogfennau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno deisebau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno sylwadau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno neu’n darparu dogfennau / deisebau ar ran eraill.

17.7 Ymdrinnir â'r wybodaeth hon yn agored ac yn gyhoeddus oni bai nad yw’r cyfarfod, neu’r rhan o'r cyfarfod, sy’n ei thrafod yn gyfarfod cyhoeddus yn unol â'r darpariaethau eithrio gwybodaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

17.8 Os ydych yn cael gwybodaeth oddi wrth drydydd parti mae angen i chi sicrhau ei fod yn deall yr uchod a **chydsynio** i'w wybodaeth gael ei rhoi yn y parth cyhoeddus. Gall y Cyngor ofyn i chi gadarnhau hyn ac efallai na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi ymhellach oni bai ein bod yn fodlon bod trydydd partïon wedi cael gwybod am hyn.

**Sut rydym yn casglu gwybodaeth gennych?**

17.9 Rydym yn casglu gwybodaeth gennych pan fyddwch yn mynd i www.valeofglamorgan.gov.uk/cy. Hefyd, pan fyddwch yn cysylltu â ni yn ysgrifenedig, yn siarad â ni ar y ffôn, yn anfon e-bost atom neu'n siarad â ni wyneb yn wyneb.

**Pa fathau o wybodaeth rydym yn eu casglu gennych?**

17.10 Er mwyn darparu'r gwasanaeth, efallai y bydd angen i'r Cyngor brosesu rhai neu bob un o'r categorïau gwybodaeth bersonol canlynol ynghylch aelodau o'r cyhoedd neu Aelodau etholedig:

- Enw a theitl
- Cyfeiriad
- Rhif cyswllt
- Cyfeiriad e-bost
- Sylwadau sy'n ymwneud â busnes y Cyngor
- Gofynion arbennig er mwyn mynychu cyfarfodydd, gan gynnwys siarad yn Gymraeg

**Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

17.11 Yn unol â'n tasgau cyhoeddus mae'r canlynol yn berthnasol:

- I'w defnyddio yn y cyfarfod fel y nodir uchod,
- Wrth gofrestru i siarad mewn cyfarfodydd pwyllgorau, bydd manylion aelodau o'r cyhoedd yn cael eu cynnwys yng nghronfa ddata gyfrifiadurol y Cyngor.
- Gellir rhannu unrhyw gofrestriadau i siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgorau ac unrhyw wybodaeth a gyflwynir i Gynghorwyr a'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid cysylltiedig (e.e. sefydliadau y mae'r Cyngor yn cydweithio â hwy i ddarparu gwasanaethau) i dderbyn eu sylwadau a'u hystyriaeth broffesiynol.
- Gellir cadw unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig a ddaw i law ar ffeil er mwyn i'r Cyngor gyfeirio ati yn y dyfodol.
- Galluogi Aelodau neu swyddogion y Cyngor i ymchwilio i neu gynorthwyo gydag unrhyw faterion y gallech fod wedi'u codi. Hefyd, fel y gallwn roi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau.
- Atgyfeirio eich sylwadau cyhoeddus i Bwyllgorau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Os rhoddir eich caniatâd datganedig, rhannu gydag aelodau eraill o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad er mwyn enwebu siaradwr.

## Pwy all weld eich gwybodaeth?

17.12 Fel arfer byddwn dim ond yn rhannu data personol gyda staff Cyngor Bro Morgannwg neu Aelodau Etholedig sydd ei angen i gyflawni eu swyddogaethau. Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, os caiff ei drafod mewn cyfarfod cyhoeddus, bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

17.13 Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn dibynnu ar nifer o eithriadau, sy'n ein caniatáu i rannu gwybodaeth heb fod angen nodi sail gyfreithlon ar gyfer y rhannu a heb fod angen rhoi gwybodaeth i chi am y rhannu.

## Seiliau cyfreithiol

17.14 Ein **seiliau cyfreithiol** ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol yw:

- Caniatâd.
- Os yw'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir gennym er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod a freiniwyd ynom.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu eich buddiannau allweddol i fywyd neu rai unigolyn arall.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

## Beth yw'ch hawliau o ran y data personol rydym yn ei brosesu?

17.15 Mae'r hawliau'n cynnwys:

- **Mynediad** – gallwch ofyn am gopïau o unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch a gedwir gan y Cyngor.

- **Cywiro** - gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir.

- **Dileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol. Gall y Cyngor wrthod dileu gwybodaeth os oes gennym reswm cyfreithiol dros ei chadw.

- **Hygludedd** – gallwch ofyn i ni drosglwyddo eich data personol i wahanol wasanaethau neu atoch chi.

- **Hawl i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu arno** – mae gennych yr hawl i wrthwynebu sut mae eich data'n cael ei ddefnyddio a sut bydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

- **Hawl i atal penderfyniadau awtomatig** – mae gennych yr hawl i herio penderfyniad sy'n effeithio arnoch sydd wedi'i wneud yn awtomatig heb ymyrraeth gan fod dynol.

**Am faint y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

17.16 Byddwn yn cadw ac yn dileu'r holl gofnodion yn unol â'n hamserlen cadw cofnodion.
Cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ar 01446 709 855 neu Democratic@valeofglamorgan.gov.uk i gael mwy o wybodaeth.

**Pa fesurau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth rhag cael ei cholli, ei newid neu'i chamddefnyddio?**

17.17 Rydym wedi ymrwymo'n gryf i ddiogelu data a byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei chamddefnyddio, ei newid neu ei llygru, a rhag mynediad heb ei awdurdodi. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ffisegol, electronig a rheoliadol ar waith i ddiogelu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Fodd bynnag, ni allwn warantu diogelwch unrhyw wybodaeth rydych yn ei hanfon atom. Rydym yn argymell eich bod yn cymryd pob cam posib i warchod eich gwybodaeth bersonol.

**Ffrydio byw**

17.18 Bydd rhai cyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu ffrydio'n fyw, byddwch yn cael gwybod ar lafar os bydd y cyfarfod rydych yn ei fynychu yn cael ei ffrydio'n fyw. Os digwydd hynny, mae hyn yn golygu y cewch eich recordio'n weledol ac mewn sain ac y bydd ar gael ar y rhyngrwyd. Gwneir hyn at ddibenion cefnogi a hyrwyddo ymgysylltu democrataidd a budd y cyhoedd. Byddwn yn cadw'r data am 6 blynedd ac yna'n ei gynnig i'r Archifydd yn Archifdy Morgannwg ar gyfer cadw'n barhaol. Mae gennych hawl i wneud cais i gael gweld, cywiro, cyfyngu ar, gwrthwynebu neu ddileu'r data hwn.

**Cwynion**

17.19 Os hoffech wneud cwyn am y defnydd o'ch data personol gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

**Drwy'r post:** Uned Rhyddid Gwybodaeth

Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU.

**Dros y ffôn:** 01446 700111

**E-bost:** DPO@valeofglamorgan.gov.uk

17.20 I gael cyngor annibynnol ar faterion rhannu data, preifatrwydd a diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn https://cy.ico.org.uk/